**LC1294**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

# Rheoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VIII o Atodlen 1 i Reoliadau Cynhyrchion sy’n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/666). Diwygir Rhan VIII er mwyn rhoi effaith i’r cyfyngiadau ar fewnforio cynhyrchion sy’n deillio o adar a geir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2006/7/EC fel y’i diwygiwyd gan Benderfyniad 2006/183/EC. Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan y Weithdrefn Weithredol ar 16 Mai 2006, a daethant i rym ar 31 Mai.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

## Sylwadau

Yn y mewnosodiad a wnaed gan reoliad 2(2), cafodd rhif y Penderfyniad diwygio 2006/183/EC ei hepgor o’r testun Cymraeg. Gan ei fod yn ymddangos yn gywir yn y testun Saesneg a bod y testun Cymraeg yn cynnwys manylion cywir y Cyfnodolyn Swyddogol ar gyfer y penderfyniad hwnnw, credir bod modd mewnosod rhif yr offeryn yn y testun Cymraeg wrth gyhoeddi.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 13 Mehefin 2006